

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 13eg Mawrth 2018 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Lynford Thomas (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Daniel Evans, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Haf Hughes

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cyng Hywel Ifans

**2. PERSONOL**

Dim i'w cofnodi

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL**

Dim i'w datgelu

**4. COFNODION**

Nodi cywiriad:

- i. Pwynt 7 vi. Tocynnau i un diwrnod i 'Steddfod Llangollen ar y dydd Gwener yn unig a gynigwyd ac nid i'r gyngerdd, a hynny ym mis Gorffennaf ac nid ym mis Awst.

Nodwyd hefyd na chofnodwyd dau bwynt o dan Unrhyw Fater Arall sef y mater a godwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen ynglŷn â'r banc gwydr yn Dihewyd nac ychwaith y problemau dŵr ar y ffyrdd, eto yn Dihewyd, gan Y Cyng. Johnny Davies.

Wedi nodi'r cywiriadau, cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 13eg o Chwefror, 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng. Alan Henson.

**5.. MATERION YN CODI**

- i. (10i). Cysylltodd y Clerc ag Alan Edwards, Dihewyd, am bris i osod Perspex ar hysbysfyrdau Cribyn, Dihewyd ac Ystrad Aeron. Derbyniwyd amcanbris o £85.00 yr un ganddo. Penderfynwyd derbyn y cynnig hwn ac i fwrw 'mlân â'r gwaith.
- ii. (10ii) Derbyniwyd amcanbris o £150 gan Wyn Jones, trwy law'r Cyng. Lyn Williams am osod slab o dan y sedd wrth gysgodfan Penlangroes, Cribyn Penderfynwyd derbyn yr amcanbris ar gyfer gwneud y gwaiith.
- iii. (10iv) Penderfynwyd estyn gwhaoddiad i'r cyn-gynghorydd Lee Jones i ginio'r Cadeirydd. Diolchodd Y Cyng. Lynford Thomas i'r Cyng. Glyn Davies am gysylltu i'w hatgoffa.
- iv. (10) Banc Gwydr Dihewyd. Derbyniwyd ateb gan Simon Edwards, Rheolwr Cytundebau Gwastraff Cyngor Sir Ceredigion. Yn ei ateb esboniodd er nad oedd hi'n bosib gosod rhagor o fanciau ar y safle, mae'r Cyngor yn edrych i mewn i gynyddu amllder y

casgliadau. Cadarnhaodd Y Cyngorwyr Gerwyn Owen a Johnny Davies bod arwydd yn rhybuddio rhag tipio anghyfreithlon eisoes wedi ei gosod wrth y safle.

## **6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith yn ystod y mis diwethaf yn cynnwys nifer o ddatliadau Dydd Gŵyl Dewi.

## **7. ADRODDIAD GWEITHDY TRAWSNEWID LLES 27/2/2018**

Oherydd yr eira a'r rhew nid oedd hi'n bosib i'r Cyngorwyr Harry Williams a Johnny Davies fynychu'r gweithdy hwn.

## **8. ADRODDIAD HYFFORDDIANT CYNLLUNIO 28/2/2018**

Mynychwyd yr hyfforddiant gan y Cyngorwyr Lynford Thomas a Lyn Williams. Un peth pwysig o'r cyfarfod yn ôl y Cadeirydd yw'r sicrwydd y bydd dyletswyddau Cyngorau Cymuned o ran materion cynllunio yn cynyddu yn y dyfodol er nad yw'r manylion nac ychwaith unrhyw ddyddiadau wedi eu trafod eto. Yn dilyn y cyfarfod, derbyniwyd copi o'r *Llawlyfr Cyfarwyddyd* ar sut i ymateb i ymgynghoriadau ceisiadau cynllunio wrth weithredu'r feddalwedd newydd, Tascomi.

## **9. CYLLID**

### **Taliadau Blynyddol 2017/2018**

- i. Neuadd Felinfach. 4 cyfarfod Mai, Medi Rhagfyr 2017 a chyfarfod arbennig ym mis Tachwedd 2017 @ £10 y tro = £40.00
- ii. Neuadd Dihewyd. 4 cyfarfod, Ebrill, Gorffennaf, Tachwedd 2017 a Mawrth 2018 @ £10 y tro = £40.00
- iii. Tony Bretland : Glanhau cysgodfannau Mynach, Bro Silin, Penlangroes, Troedyrhiw, Ystrad a Bro Henllys. £567.32 (yn cynnwys codiad o £2% a gytunwyd yng nghyfarfod mis Mai 2017).
- iv. Les Verdin : Glanhau cysgodfan Dihewyd £94.55 (yn cynnwys codiad o £2% a gytunwyd yng nghyfarfod mis Mai 2017).
- iv. Taliad chwarterol y Clerc £575.00

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r costau a chyflogau uchod.

## **10. GOHEBIAETH**

Derybniwyd

- i. llythyr o ddiolch am y rhodd o £50.00 gan Bwyllgor Cymru-Ohio 2018
- ii. gwybodaeth am Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Un Llais Cymru, 29ain o Fawrth ar Faes y Sioe.

- iii. cyfle i lenwi holiadur Heneiddio'n Dda yng Nghymru. Nododd y Cadeirydd y byddai'n mynychu'r digwyddiad yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar ddydd Iau, 15ed Mawrth.
- iv. gwahoddiad gan Calonnau Cymru am hyfforddaint CPR a sut i ddefnyddio diffribliwr. Penderfynwyd y byddai unrhyw gynghorydd â diddordeb yn cysylltu â'r Clerc i wneud y trefniadau ar ei r/rhan.
- v. nodyn atgoffa Ymghyngoriad Toiledau. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc i ymateb i'r ymgynghoriad hwn er cyfrannu at y straegaeth leol ar gyfer darparu toiledal yn rhan o ganllawiau statduol Awdurodau Lleol.
- vi. cais gan Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg Ceredigion am llythyr o gefnogaeth i'r dathliadau a drefnwyd i ddatlu 200 mlynedd taith cenhadon Neuadd-lwyd i Fadagascar. Bydd y llythyr yn cael ei gyflwyno yn rhan o gais am nawdd i Gyngor Sir Ceredigion. Gofynwyd hefyd am gyfraniad ariannol tuag y gost o £12,000.00 tuag at gynnal y digwyddiadau. Penderfynwyd trafod y cais am arian yn y cyfarfod hwn gan fod y dathlu'n digwydd rhwng y 6ed – 10fed o Fehefin.

Ar gynnig Y Cyng. Glyn Davies a'i eilio gan Y Cyng. Harry Williams, penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth at bwyllgor y 200 mlwyddiant yn ogystal â chyfraniad o £25.00. Derbyniwyd yn unfrydol.

## **11. CYNLLUNIO**

Nodwyd un cais a ganiatwyd yn ddibynnol ar amodau:

- i. Rhif 30 : A180036. Moiddyn Fawr. Codi adeilad amaethyddol ar y sied bresennol ar gyffordd C1185 / C1053 yng Nghribyn.

## **12. UNRHYW FATER ARALL**

- i. Bocsys Halen. Yn sgil y rhew diweddar, codwyd cwestiwn gan Y Cyng. Johnny Davies ynglŷn ag amllder ail-lenwi'r bocsys wrth (a) Ffynnondalis a (b) hewl Mydroilyn i Cribyn (Tryal). Nodwyd yn sgil y drafodaeth y byddai'n rhaid sicrhau rhannu'r gost o ail-lenwi bocs (b) gan ei fod yn ffinio ag etholaeth Cyngor Cymuned Llanarth.
- ii. Gofynnodd Y Cyng. Harry Williams am wybodaeth ynglŷn â statws y llwybyr sy'n rhedeg o Graigwen i Cae-garw trwy Lety Rhys gan ei fod wedi cael ar ddeall fod yna glo ar un o'r gatiâu ar hyd y llwybyr.

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau parthed y materion uchod.

## **13 DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fawrth, 10fed Ebrill, 2018 yn Neuadd Felinfach

